

YSGOL BRYNREFAIL

Polisi Cyfle Cyfartal



RATIONALE

Un o brif nodau yr ysgol yw datblygu pob unigolyn, boed yn ddisgybl neu'n aelod o'r staff sy'n gwasanaethu'r ysgol. Er mwyn cyflawni'r nod hwn sylweddola'r ysgol fod ganddi gyfrifoldeb i sicrhau fod pawb sy'n rhan o'r ysgol yn cael cyfle i gyrraedd y nod hwnnw. Er mwyn cyflawni hyn felly, ffurfiwyd polisi cyfle cyfartal sy'n sail i lawer o'r penderfyniadau a wneir o fewn yr ysgol.

NOD

1. Sicrhau bod holl ddisgyblion a staff yr ysgol yn cyrraedd eu llawn botensial.
2. Cymryd y camau cadarnhaol angenrheidiol i sicrhau cyfle cyfartal.
3. Creu awyrgylch ac ethos a fydd yn gymorth i gyflawni'r nodau hyn.

AMCANION

1. Bydd pob cyhoeddiad/gwybodaeth ynglŷn â'r ysgol yn cymryd polisi'r ysgol a chyfle cyfartal i ystyriaeth.
2. Bydd pob gohebiaeth i rieni/cyrff cyhoeddus yn yr iaith a'r fformat priodol.
3. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod y deunyddiau dysgu yn cymryd anghenion y gymuned leol gan gynnwys ei hiaith a'i llenyddiaeth i ystyriaeth.
4. Mae gan yr ysgol bolisi hygyrchedd agored.
5. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod ei chwricwlwm yn un eang, cytbwys a pherthnasol ac wedi ei wahaniaethu er mwyn cwrdd â gofynion yr holl ddisgyblion y mae'n eu gwasanaethu.
6. Bydd yr ysgol yn anelu at gefnogi unrhyw ddisgybl a all fod ag anabledd neu ag anawsterau dysgu neu emosiynol.
7. Bydd polisi ad-dalu'r ysgol yn cymryd materion sy'n ymwneud a chyfle cyfartal i ystyriaeth.
8. Bydd pob cyfarwyddyd ymgynghorol a roddir i ddisgyblion yn ddiuedd o ran hil, rhyw, anabledd neu allu academaidd.
9. Bydd pawb ddaw i mewn i'r ysgol yn derbyn croeso cadarnhaol ar y cyswllt cyntaf.
10. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod yr amgylchedd yn adlewyrchu ei pholisi cyfle cyfartal fel na fydd yr un person yn teimlo dan fygythiad beth bynnag fo hil, lliw, rhyw neu anabledd y person hwnnw.
11. Gwneir y corff llywodraethol bob amser yn ymwybodol o'i dyletswyddau ynglŷn â chyfle cyfartal.
12. Cynigir cyfle cyfartal i bob aelod o'r staff o ran rhagolygon dyrchafiadau HMS o fewn yr ysgol.
13. Bydd yr ysgol yn paratoi adnoddau/deunyddiau dysgu a fydd yn cwrdd â gofynion ei pholisi cyfle cyfartal.
14. Dylai'r adnoddau/deunyddiau dysgu a gynhyrchir fod yn rhydd o gyfeiriadau a allai beri tramgwydd ar sail hil, rhyw, grŵp ethnig, yr anabl neu unrhyw grŵp lleiafrifol.

Lluniwyd y polisi hwn mewn cytundeb ac ymgynghoriad llawn gyda'r staff dysgu a'u hundebau gan warchod cydbwysedd bywyd a gwaith athrawon. Roedd hyn yn cynnwys asesiad yn erbyn Rhestr Wirio Effaith Llwyth gwaith.

Llofnodwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr ar ran y Corff Llywodraethu:

Dafydd M Roberts (Cadeirydd y Llywodraethwyr)

Dyddiad cymeradwyo: 14/07/2014 (gan y Corff Llywodraethu llawn)

Dyddiad adolygu: Gorffennaf 2017